Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Cynllun Pwnc Chwaraeon

Hydref 2017

CYMRAEG

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Cyflwyniad a chyd-destun

Cyd–destun
Ym mis Ionawr 2017, cyhoeddodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ei ail Gynllun Academaidd. Mae “Tuag at 2020 a thu hwnt” yn gynllun strategol sy’n gosod egwyddorion, nodau a fframwaith gynllunio ar lefel genedlaethol. Mae hyn yn adeiladu ar y Cynllun Academaidd cyntaf a gyhoeddwyd yn 2012 yn fuan wedi sefydlu’r Coleg. http://bit.ly/2rtflxT

Mae’r Cynllun Pwnc Chwaraeon yn gosod yr egwyddorion a’r nodau hynny ar waith ar lefel ddisgyblaethol.

Proses
Cam cyntaf y broses o lunio’r cynllun hwn oedd i sefydliadau addysg uwch ymateb i ffurflen cynllunio pwnc. Pwrpas y ffurflen oedd casglu gwybodaeth gyfredol oddi wrth y prifysgolion am lefel y ddarpariaeth, capasiti staffio a niferoedd myfyrwyr. Mae’r targedau yn y cynllun hwn yn seiliedig ar y wybodaeth honno ac yn gosod nodau a blaenoriaethau am y pum mlynedd nesaf a thu hwnt.

Egwyddorion a Themâu
Tra oedd y cynllun pwnc blaenorol yn canolbwyntio ar ddatblygu darpariaeth Gymraeg ar gynlluniau gradd anrhydedd, bydd y cynllun hwn yn adeiladu ar y gwaith a gyflawnwyd yn y sefydliadau yn ystod cyfnod cyntaf y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac yn canolbwyntio ar y nod o gynnig addysg uwch o’r radd flaenaf i’r myfyrwyr sy’n dewis astudio o leiaf cyfran o’u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae profiad y myfyriwr yn greiddiol i’r egwyddor honno.

Strwythur y Cynllun
Mae’r Cynllun Pwnc Chwaraeon yn gosod fframwaith ar gyfer y cyfnod 2017/18 hyd 2022/23. Yma, ceir ystyriaeth lawnach o’r sector ôl-16 yn ogystal ag anghenion y gweithle. Rhoddir mwy o bwyslais ar gyd-destun polisi, a’r cyfleoedd a’r heriau sy’n benodol i’r maes Chwaraeon.

Mae Chwaraeon yn faes eang sy’n cwmpasu nifer o elfennau megis gwyddor chwaraeon, addysg awyr agored, hyfforddiant chwaraeon, addysg gorfforol a therapi chwaraeon, seicoleg a moeseg chwaraeon. Mae’r rhan fwyaf o sefydliadau yn cynnig cyrsiau BA a BSc ond mae un sefydliad yn benodol hefyd yn cynnig cwrs MSci 4 blynedd.

Bu datblygiad sylweddol iawn yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf o ran darpariaeth cyfrwng Cymraeg ym maes Chwaraeon. Mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant a Phrifysgol Bangor wedi datblygu eu darpariaeth a denu niferoedd cynaliadwy o fyfyrwyr drwy gyfuniad o gefnogaeth gyllidol gan y Coleg Cymraeg a buddsoddiad mewnol.

Mae Prifysgol De Cymru yn cynnig rhywfaint o ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg drwy gynnig profiad gwaith cyfrwng Cymraeg ar sawl modiwl. Cyflwynwyd ffurflen cynllunio pynciol gan Brifysgol Abertawe, ond nodir nad oes darpariaeth ffurfiol drwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd

Mae proses dyrannu grantiau pynciol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn dibynnu ar gategori'r pwnc yn genedlaethol oddi mewn i'r Cynllun Academaidd, blaenoriaethau strategol y prifysgolion unigol a natur y gefnogaeth sy'n parhau o du'r Coleg Cymraeg, (e.e. drwy'r Cynllun Staffio). Mae cyfuniad o ffactorau'n effeithio ar ddyraniad grant pynciol ynghyd ag a yw'r prifysgolion yn cwrdd â'r meini prawf a osodwyd gan y Cynllun Academaidd Cenedlaethol. Yn 2017 mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant a Phrifysgol Bangor yn cyrraedd meini prawf y Cynllun Academaidd. Yn wreiddiol ym maes Gwyddorau Chwaraeon, dau leoliad a gefnogwyd gan gyllid y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, ond llwyddodd Prifysgol Bangor i ddangos (o'u hadnoddau eu hunain) fod modd cynnal darpariaeth a denu myfyrwyr mewn dull cynaliadwy. Yn sgil hynny, estynnwyd cefnogaeth i Brifysgol Bangor hefyd.

Adolygir ystod y ddarpariaeth a'r lleoliadau astudio yn flynyddol yn unol â meini prawf y Cynllun Academaidd – sef bod o leiaf chwe myfyriwr ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg, a bod o leiaf dau aelod o staff academaidd (cyfwerth amser llawn) yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer darpariaeth gwerth deugain credyd y flwyddyn, a phedwar aelod o staff academaidd yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer darpariaeth gwerth wyth deg credyd y flwyddyn.

Sefyllfa Gyfredol (2016/17)[1]			
Sefydliad Addysg Uwch	**Darpariaeth**	**Staff**	**Myfyrwyr**
Prifysgol Metropolitan Caerdydd	O leiaf 80 credyd ar gael bob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg.	7 aelod o staff llawn amser yn siarad Cymraeg. 4.25 yn dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.	O leiaf 20 ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. 179 yn siarad Cymraeg yn rhugl Bl.1 – Bl.3.
Prifysgol Bangor	O leiaf 40 credyd ar gael bob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg.	3 aelod staff llawn amser ac 1 aelod staff rhan-amser yn siarad Cymraeg ac yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg	O leiaf 15 ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. 61 yn siarad Cymraeg[2] Bl.1 – Bl.3.
Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant	O leiaf 40 credyd ar gael bob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg.	3 aelod o staff llawn amser a 1 aelod staff rhan-amser yn siarad Cymraeg. 3 aelod o staff llawn amser a 1 aelod staff rhan-amser yn dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.	O leiaf 6 ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. 34 yn siarad Cymraeg yn rhugl Bl.1 – Bl.3.

Cyflwynwyd ffurflen cynllunio pynciol gan Brifysgol Abertawe, ond nodir nad oes darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd. Cyflwynwyd gwybodaeth gan Brifysgol De Cymru gan nodi bod rhywfaint o ddarpariaeth Chwaraeon yno drwy gyfrwng y Gymraeg.

[1] Data gan y sefydliadau.
[2] Cyfrifir y siaradwyr Cymraeg rhugl a'r rheini a nodir eu bod yn siarad Cymraeg â'i gilydd.

Datblygu'r maes: patrwm cenedlaethol	
Profiad Myfyrwyr	Mae profiad y myfyriwr yn ganolog i astudio gradd Chwaraeon. Cynigir amrediad o brofiadau i fyfyrwyr gan gynnwys: • Sesiynau ymarferol a theithiau maes • Cyfleoedd rhyngwladol (e.e. Prosiect ym Mhatagonia i ddatblygu chwaraeon cymunedol, trip ymarfer/hyfforddiant dygnwch i Sbaen (Murcia) lle y llwyddwyd i gynnal elfennau drwy gyfrwng y Gymraeg). • Lleoliadau profiad gwaith (e.e. Urdd Gobaith Cymru). • Cynhadledd Chwaraeon cyfrwng Cymraeg • Modiwlau preswyl penodol (Synnwyr o Le – Drindod Dewi Sant) • Tiwtor personol cyfrwng Cymraeg • Seminarau cyfrwng Cymraeg • Ceir enghreifftiau o fyfyrwyr blwyddyn 2 a 3 yn cynorthwyo a chynnig cymorth i fyfyrwyr blwyddyn gyntaf "Arweinwyr Cyfoed". • Cymwysterau ymarferol (e.e. Hyfforddwr Campfa Lefel 2/3, a chymwysterau cyrff llywodraethu cenedlaethol (NGB)). • Yn y rhan fwyaf o achosion, mae goruchwylwyr traethawd hir yn ymchwilwyr cydnabyddedig ac mae ansawdd eu hymchwil wedi ei asesu drwy'r Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF). • Awgrymir y gellir datblygu rhai modiwlau 100% cyfrwng Cymraeg.
Darlithwyr	Mae nifer dda o ddarlithwyr yn y maes yn genedlaethol, ac yn cwmpasu ystod o feysydd oddi mewn i Astudiaethau Chwaraeon. Mae nifer o'r darlithwyr sydd bellach yn darlithio drwy gyfrwng y Gymraeg yn gyn-ddeiliaid ysgoloriaeth PhD y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac mae'n bwysig sicrhau llif cyson o ymgeiswyr posibl ar gyfer swyddi academaidd o blith y myfyrwyr hynny sydd wedi bod yn astudio ar lefel isradd a Meistr trwy gyfrwng y Gymraeg.

	Rhwng y tair prifysgol, ceir ystod o arbenigeddau sy'n cynnwys hyfforddiant chwaraeon, addysg gorfforol, cymdeithaseg a moeseg chwaraeon, ffisioleg chwaraeon, seicoleg chwaraeon, astudiaethau awyr agored a hyfforddiant personol. Dros y blynyddoedd nesaf, awgrymir y bydd aelod staff sy'n arbenigo mewn adferiad ymarfer corff o fudd i ehangu ar yr arbenigeddau a gynigir.
Cwricwlwm	Mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd wedi datblygu cwrs Astudiaethau Chwaraeon ac Addysg Gorfforol (dwyieithog) gyda dros 90% ar gael drwy'r Gymraeg. Mae rhai enghreifftiau o fodiwlau / datblygiadau sy'n adlewyrchu cyd-destun Cymreig (e.e. Synnwyr o Le, neu'n fwy diweddar cwrs meistr ar ddarlledu chwaraeon sydd ag elfen ddwyieithog eglur).
Canlyniadau Myfyrwyr	Mae cryn dipyn o fyfyrwyr sy'n astudio drwy'r Gymraeg yn ennill y marciau uchaf yn eu blwyddyn ac mae disgwyl i'r patrwm hwn barhau.
Adnoddau	Dros y blynyddoedd diwethaf, datblygwyd adnoddau gyda chefnogaeth y Coleg Cymraeg, er enghraifft: • Cyfres o 10 gweithdy Seicoleg Chwaraeon ar Lyfrgell Adnoddau'r Coleg (2017, Prifysgol Bangor) • Cyfrol *Chwaraeon yn y Gymdeithas* – Dr Hywel Iorwerth a'r Athro Carwyn Jones (2013, Prifysgol Metropolitan Caerdydd). Mae nifer o erthyglau chwaraeon wedi eu cyhoeddi yn *Gwerddon* dros y blynyddoedd diwethaf. Crybwyllwyd adnodd ffisioleg chwaraeon mewn cyfarfodydd panel blaenorol. Bydd angen ystyriaeth bellach i anghenion adnoddau wrth i'r pwnc barhau i ddatblygu.
Cyflogadwyedd (gan gynnwys Galw gan Gyflogwyr)	Yn ôl Gyrfa Cymru,[3] 'mae dros 600,000 o bobl yn gweithio yn y maes Chwaraeon a Ffitrwydd ledled y DU mewn mwy na 230,000 o wahanol sefydliadau. Mae tua 8,000 o bobl yng Nghymru yn gweithio yn y diwydiant Gweithgareddau Awyr Agored sy'n werth £481 miliwn i economi Cymru' (*Llywodraeth Cymru, 2015*) a bydd angen dros 3,000 o weithwyr mewn swyddi chwaraeon a hamdden yng Nghymru erbyn 2022 (*Working Futures, 2012–2022*).

[3] www.careerswales.com/cy/eich-gyrfa/nodweddion/gyrfaoedd-mewn-chwaraeon-a-hamdden/

	Yn ddi-os, mae'r angen am sgiliau Cymraeg mewn chwaraeon a hyfforddiant yn bwysicach nag erioed. Mae Strategaeth Iaith newydd Llywodraeth Cymru yn allweddol ac yn gosod pwyslais penodol ar ddefnydd y Gymraeg mewn cyd-destunau cymunedol ac mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn gosod pwyslais ar 'Gymru iachach'. Mewn ymateb i ymchwil ac adborth gan gyrff chwaraeon ledled Cymru yn lled ddiweddar, cyhoeddodd Comisiynydd yr Iaith becyn ymarferol i glybiau a chymdeithasau chwaraeon ar sut i ddatblygu gweithgareddau chwaraeon yn ddwyieithog yng Nghymru, sef 'Amdani!'. Gwelir bod graddedigion yn symud i swyddi megis hyfforddi chwaraeon, addysgu addysg gorfforol, cyfryngau chwaraeon, a swyddi gyda chyrff llywodraethu chwaraeon cenedlaethol. Ceir tystiolaeth eisoes o alw gan nifer o gyrff ledled Cymru am hyfforddwyr sy'n medru'r Gymraeg, e.e. Urdd Gobaith Cymru. Mae'r safonau iaith a osodwyd gan Gomisiynydd yr Iaith yn golygu ei bod hi'n rhesymol fod cynghorau yn darparu gwersi chwaraeon, e.e. gwersi nofio drwy gyfrwng y Gymraeg.
Cynaliadwyedd (gan gynnwys Dilyniant)	Ar hyn o bryd, mae'r rhan fwyaf o gyrsiau a gynigir yn y maes hwn yn cynnig cymhwyster BA neu BSc, ac mae rhai colegau addysg bellach yn cynnig graddau llawn yn y maes yn ogystal â graddau Sylfaen (e.e. Coleg Caerdydd a'r Fro). Mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr ar gyrsiau gradd chwaraeon a'u tebyg yn dilyn llwybr traddodiadol o'r ysgol neu Goleg Addysg Bellach i astudio ar lefel gradd. Mae system recriwtio'r sefydliadau'n amrywio; mae rhai ohonynt yn derbyn nifer o fyfyrwyr yn syth wedi iddynt gwblhau Lefel A, ac eraill yn derbyn nifer helaeth o fyfyrwyr sydd wedi dilyn cyrsiau BTEC. Dylid ystyried ymhellach beth yw natur y ddarpariaeth BTEC ynghyd â natur y dilyniant i gyrsiau addysg uwch. Rhagwelir y bydd angen ymgynghori ymhellach â Cholegau Addysg Bellach er mwyn sefydlu galw a dilyniant, a hefyd sefydlu sut mae hyrwyddo'r ddarpariaeth Gymraeg ymhellach. Yn ystod 2017/18, mae Coleg Cambria yn cynnal Cynhadledd 'Chwarae dy Gêm'. Digwyddiad yw hwn i holl fyfyrwyr Coleg Cambria (ar draws y pum campws) a chweched dosbarth ysgolion y

	gogledd gyda'r bwriad o wahodd darlithwyr y maes i draddodi yn y gynhadledd a cheisio annog dilyniant. Ceir enghreifftiau lle y bydd ysgolion lleol yn ymweld ag adrannau a lle y bydd myfyrwyr yn darparu gwersi addysg gorfforol (e.e. gweithgareddau antur).

Blaenoriaethau cynllunio cenedlaethol			
Nod gweithredu	**Targedau blwyddyn (2017/18)**	**Targedau 3 mlynedd (2019/20)**	**Targedau 5 mlynedd (2021/22)**
1. Darpariaeth	Cynnig ystod o ddarpariaeth gan gynnwys o leiaf 80 credyd drwy gyfrwng y Gymraeg mewn un brifysgol, ac o leiaf 40 credyd drwy gyfrwng y Gymraeg bob blwyddyn mewn dwy brifysgol	Cynnig ystod o ddarpariaeth gan gynnwys o leiaf 80 credyd drwy gyfrwng y Gymraeg mewn un brifysgol, ac o leiaf 40 credyd drwy gyfrwng y Gymraeg bob blwyddyn mewn dwy brifysgol	Cynnig ystod o ddarpariaeth gan gynnwys o leiaf 80 credyd drwy gyfrwng y Gymraeg mewn un brifysgol, ac o leiaf 40 credyd drwy gyfrwng y Gymraeg bob blwyddyn mewn dwy brifysgol
2. Cynyddu nifer y myfyrwyr sy'n astudio o leiaf 40 credyd	130 o fyfyrwyr	150 o fyfyrwyr	180 o fyfyrwyr
3. Ysgoloriaethau PhD	O leiaf un PhD cyfrwng Cymraeg ym maes Chwaraeon bob blwyddyn	O leiaf un PhD cyfrwng Cymraeg ym maes Chwaraeon bob blwyddyn	O leiaf un PhD cyfrwng Cymraeg ym maes Chwaraeon bob blwyddyn
4. Dilyniant a chydweithio gyda'r sector addysg bellach	Datblygu darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ar o leiaf un radd Sylfaen	Cynnig o leiaf un radd Sylfaen gydag elfen drwy gyfrwng y Gymraeg, ac adnabod cyfleoedd pellach i ehangu darpariaeth ar lefel Sylfaen	Parhau i gynnig o leiaf un radd Sylfaen gydag elfen drwy gyfrwng y Gymraeg
5. Datblygu darpariaeth ôl-radd	Datblygu o leiaf un cwrs Meistr sy'n gymwys ar gyfer Ysgoloriaeth Meistr y Coleg	Cwrs Meistr yn cael ei ddarparu gan o leiaf un brifysgol	Cwrs Meistr yn cael ei ddarparu gan o leiaf un brifysgol

Datblygu'r maes: targedau sefydliadol				
Sefydliad	**Nod gweithredu**	**Targedau blwyddyn (2017/18)**	**Targedau 3 mlynedd (2019/20)**	**Targedau 5 mlynedd (2021/22)**
Prifysgol Metropolitan Caerdydd	Darpariaeth	O leiaf 80 credyd ar gael bob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg a pharhau i gynnig 40 credyd y flwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg ar nifer o raglenni o fewn yr Ysgol Chwaraeon	O leiaf 80 credyd ar gael bob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg a pharhau i gynnig 40 credyd y flwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg ar nifer o raglenni o fewn yr Ysgol Chwaraeon	O leiaf 100 credyd ar gael bob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg a pharhau i gynnig 40 credyd y flwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg ar nifer o raglenni o fewn yr Ysgol Chwaraeon
	Myfyrwyr	O leiaf 20 bob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.	O leiaf 25 bob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.	O leiaf 25 bob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.
	Profiad Myfyrwyr	Datblygu cysylltiadau â Phatagonia er mwyn caniatáu i fyfyrwyr sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg i ymgymryd â chyfleoedd profiad gwaith yn rhyngwladol ond drwy gyfrwng y Gymraeg	Datblygu prosiectau penodol er mwyn datblygu profiadau'r myfyrwyr ar fodiwlau cyfrwng Cymraeg	Datblygu prosiectau penodol er mwyn datblygu profiadau'r myfyrwyr ar fodiwlau cyfrwng Cymraeg

	Staff	4 aelod staff CALl yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg	4 aelod staff CALl yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg	4 aelod staff CALl yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg
	Darpariaeth Meistr	Cyflwyno darpariaeth ôl-raddedig drwy gyfrwng y Gymraeg i'r MSc Darlledu Chwaraeon mewn cydweithrediad â'r prif ddarparwyr yn y diwydiant	Sicrhau bod o leiaf 60 credyd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg ar yr MSc Darlledu Chwaraeon	Sicrhau bod o leiaf 60 credyd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg ar yr MSc Darlledu Chwaraeon
	Ymchwil	Ariannu'n rhannol unrhyw geisiadau llwyddiannus i Gynllun Ysgoloriaethau Ymchwil Ôl-raddedig y Coleg (darlithwyr, ymchwil, cynaliadwyedd)	Ariannu'n rhannol unrhyw geisiadau llwyddiannus i Gynllun Ysgoloriaethau Ymchwil Ôl-raddedig y Coleg (darlithwyr, ymchwil, cynaliadwyedd)	Ariannu'n rhannol unrhyw geisiadau llwyddiannus i Gynllun Ysgoloriaethau Ymchwil Ôl-raddedig y Coleg (darlithwyr, ymchwil, cynaliadwyedd)
Prifysgol Bangor	Darpariaeth	O leiaf 40 credyd ar gael bob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg	O leiaf 80 credyd bob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg a pharhau i gynnig 40 credyd y flwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg ar nifer o raglenni o fewn yr ysgol	O leiaf 80 credyd bob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg a pharhau i gynnig 40 credyd y flwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg ar nifer o raglenni o fewn yr ysgol
	Myfyrwyr	O leiaf 15 myfyriwr ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg	O leiaf 15 myfyriwr ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg	O leiaf 20 myfyriwr ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg

	Profiad Myfyrwyr	Parhau i ddatblygu cymuned Gymraeg a chynnig prosiectau i fyfyrwyr Cymraeg. Hefyd, parhau i ddatblygu cyflogadwyedd ar gyfer myfyrwyr dwyieithog drwy gydweithio gyda chyrff llywodraethol, (e.e. Undeb Rygbi Cymru)	Parhau i ddatblygu cymuned Gymraeg a chynnig prosiectau i fyfyrwyr Cymraeg. Hefyd, parhau i ddatblygu cyflogadwyedd ar gyfer myfyrwyr dwyieithog drwy gydweithio gyda chyrff llywodraethol, (e.e. Undeb Rygbi Cymru)	Parhau i ddatblygu cymuned Gymraeg a chynnig prosiectau i fyfyrwyr Cymraeg. Hefyd, parhau i ddatblygu cyflogadwyedd ar gyfer myfyrwyr dwyieithog drwy gydweithio gyda chyrff llywodraethol, (e.e. Undeb Rygbi Cymru)
	Staff	3 aelod staff llawn amser; 1 aelod staff rhan-amser yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg	3 aelod staff llawn amser; 1 aelod staff rhan-amser yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg	3 aelod staff llawn amser; 1 aelod staff rhan-amser yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg
	Darpariaeth meistr	Ymchwilio i'r posibilrwydd o gynnig 60 credyd ar radd Meistr	Cynnig 60 credyd y flwyddyn ar radd Meistr fel ei fod yn gymwys ar gyfer Ysgoloriaeth Meistr y Coleg	Cynnig 60 credyd y flwyddyn ar radd Meistr fel ei fod yn gymwys ar gyfer Ysgoloriaeth Meistr y Coleg
	Ymchwil	Ariannu'n rhannol unrhyw geisiadau llwyddiannus i Gynllun Ysgoloriaethau Ymchwil Ôl-raddedig y Coleg (darlithwyr, ymchwil, cynaliadwyedd)	Ariannu'n rhannol unrhyw geisiadau llwyddiannus i Gynllun Ysgoloriaethau Ymchwil Ôl-raddedig y Coleg (darlithwyr, ymchwil, cynaliadwyedd)	Ariannu'n rhannol unrhyw geisiadau llwyddiannus i Gynllun Ysgoloriaethau Ymchwil Ôl-raddedig y Coleg (darlithwyr, ymchwil, cynaliadwyedd)

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant	Darpariaeth	O leiaf 40 credyd ar gael bob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg	O leiaf 40 credyd ar gael bob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg	O leiaf 40 credyd ar gael bob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg
	Myfyrwyr	O leiaf 6 myfyriwr ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg	O leiaf 10 myfyriwr ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg	O leiaf 15 myfyriwr ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg
	Staff	2 aelod staff CALl yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg	2 aelod staff CALl yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg	2 aelod staff CALl yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg